



**Croeso: beginners' Welsh**  
*Describing yourself*

Listen to Menna describing herself, the kind of work she has done over the years and what she does at present. There may well be things you do not understand, but listen a few times and see how much you can work out before you look at the transcript.

**Menna:**

Menna Baines dw i. Ges i fy ngeni yn Sir Gaernarfon a fy magu yno ac yn Sir Drefaldwyn. Dw i wedi byw mewn gwahanol rannau o Gymru, ond erbyn hyn, dw i'n byw ym Mangor. Mae dau o blant gen i a fy mhartner, Peredur. Fy ngwaith yw ysgrifennu a golygu.

Am ddeg mlynedd, ro'n i'n gweithio ar wyddoniadur (*encyclopaedia*) am Gymru. Mae'r llyfr yn llawn gwybodaeth am hanes Cymru a Chymru heddiw, ac mae o'n pwysu 3 kilo! Roedd paratoi'r llyfr yn waith caled ond yn llawer o hwyl hefyd. Dysgais i lawer o bethau newydd am Gymru. Er enghraifft, oeddech chi'n gwybod mai dyn o Gymru a wnaeth ddyfeisio arwydd yr hafalnod (*equals sign*)? Oeddech chi'n gwybod fod Everest wedi ei enwi ar ôl Cymro?

Fel pawb sy'n byw yng Nghymru, ro'n i'n gwybod fod y wlad yn cael llawer o law, ond do'n i ddim yn gwybod mai Abertawe oedd y ddinas fwyaf gwlyb ym Mhrydain i gyd! A do'n i ddim yn gwybod, chwaith, fod yna chwech afon o'r enw Clywedog yng Nghymru. Roedd yn ddiddorol hefyd dysgu am bethau gwahanol i'r arfer. Mae pawb yn gwybod am y canu – o Tom Jones i Bryn Terfel a Duffy – ac mae'r beirdd yn enwog hefyd. Ond nid pawb sy'n gwybod am gyfraniad pobl o Gymru mewn gwyddoniaeth neu fyd celf, er enghraifft. I mi, y peth gorau am y gwaith ar y Gwyddoniadur oedd dod i wybod am y pethau gwahanol yma i gyd, ac felly cael darlun llawer mwy cyflawn o hanes Cymru.

Cyn gweithio ar y Gwyddoniadur, ro'n i wedi bod yn gweithio fel newyddiadurwraig am rai blynyddoedd, a dyna yw fy ngwaith ar hyn o bryd hefyd. Dw i'n un o olygyddion y cylchgrawn *Barn*. Mae *Barn* yn gylchgrawn Cymraeg sy'n ymddangos bob mis. Mae o'n trafod materion cyfoes a'r celfyddydau. Felly dw i'n cael mynd i weld ffilm neu gyngerdd neu arddangosfa heb orfod cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith!

Oherwydd y plant a'r gwaith, does dim llawer o amser hamdden gen i, ond dw i'n hoffi cerdded llwybrau Cymru. Dw i hefyd yn hoffi darllen. Y fantais arall wrth weithio ar gylchgrawn yw cael gweld llyfrau yn syth wedi iddyn nhw ymddangos o'r wasg!